**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Ashok Ahir
Cadeirydd
Pedr ap Llwyd
Prif Weithredwr a Phrif Lyfrgellydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

13 Rhagfyr 2023

**Craffu cyffredinol ar waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Annwyl Ashok a Pedr

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2023, i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu cyffredinol ar waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod ein sesiwn, ac rydym yn ysgrifennu atoch i ofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom drafod ehangu mynediad ac ymgysylltu. Hoffai'r Pwyllgor ddeall yn well y cyfyngiadau hawlfraint a roddir ar yr archif ddarlledu a pham na ellir agor mwy o gynnwys ar-lein. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu mwy o wybodaeth am hyn a phwrpas Corneli Clip y Llyfrgell.

Deallwn fod angen adolygu'r strategaeth gyfredol ar gyfer y Llyfrgell ac ailystyried yr hyn y gellir ei gyflawni yn sgil y newid yn y sefyllfa ariannol. Gwnaethoch esbonio y gallai fod angen cyflwyno strategaeth newydd unwaith y bydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 ar gael. Rydym hefyd yn cydnabod eich cynnig i drafod eich gweledigaeth ar gyfer Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru. Byddem yn awyddus i glywed gennych eto i drafod y materion hyn yn ystod gwanwyn 2024.

O ystyried mai byr yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau fel rhan o'r gwaith craffu seneddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu unrhyw faterion eraill y dylem eu hystyried yn ystod y gwaith craffu hwnnw yn eich barn chi, a hynny erbyn 3 Ionawr 2024.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb cyn bo hir maes o law.

Yn gywir


**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.